# **cwestiynau** lleoliad newydd

cwestiynau i'w gofyn i'r Tîm Maethu pan fyddan nhw'n ffonio ynglŷn â lleoliad newydd.

**yr hanfodion**

enw, a beth maen nhw'n hoffi cael eu galw? Oed (pen-blwydd), rhyw, sawl plentyn? Ydyn nhw'n cael rhannu ystafell wely?

**cefndir**

o ble maen nhw'n dod? Pam eu bod yn symud? Ers faint maen nhw wedi bod dan ofal maeth?

**hyd yr arhosiad**

Statws cyfreithiol, hirdymor, tymor byr, unrhyw ddyddiad pwysig (gwyliau wedi'u trefnu) yn eich dyddiadur fydd arnoch chi angen ei ystyried. Tebygolrwydd o'r lleoliad yn cyrraedd a'r amser disgwyliedig.

**addysg**

I ba ysgol maen nhw'n mynd? Addysg lawn amser? Oes angen hebrwng plant i'r ysgol ac oddi yno? Cludiant ysgol?

**eiddo**

beth maen nhw'n dod efo nhw? Beth fydd arnyn nhw ei angen?

**cyswllt**

brodyr a chwiorydd, rhieni biolegol - pa mor aml, pryd, lle, cludiant, wedi'i oruchwylio?

**staff sy'n ymwneud â'r plentyn/plant**

gweithiwr cymdeithasol, gweithwyr sesiynol, pwy fydd yn dod efo'r plentyn?

**datblygiad ac ymddygiad**

maint sêt car. Oed datblygiad. Unrhyw broblem ymddygiad neu ddiagnosis hysbys?

**bwyd ac anghenion meddygol**

anghenion deietegol, alergeddau, cyflyrau meddygol

**ardal**

o ba ardal yn wreiddiol? Ardaloedd i'w hosgoi?

**hoff a chas bethau**

beth ydym ni'n gwybod amdanyn nhw?

**anifeiliaid anwes**

ydyn nhw wedi arfer efo anifeiliaid anwes? Ydyn nhw'n hoffi cŵn, cathod...?

**anghenion cefnogi**

oes ar y plentyn angen cefnogaeth gydag unrhyw beth? Pa gefnogaeth fydd arnaf i ei hangen fel gofalwr maeth?

**babanod**

Cyn-geni, ydi'r fam wedi derbyn unrhyw ofal cyn-geni? Dyddiad geni disgwyliedig? A oedd un o'r rhieni yn camddefnyddio sylweddau? Rhoi'r gorau?

**babanod**

Llefrith, dymis, powdr golchi, trefn ddyddiol, clytiau. Pa ysbyty, profion, pigiad sawdl, wedi'i bwyso, cyfarfod rhyddhau.

**offer**

sêt car, cadair uchel, cadair wthio, cot, gwlâu...